**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Huw Irranca-Davies, AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

25 Hydref 2022

**Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)**

Annwyl Huw

Diolch am adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a gyhoeddwyd ar 10 Hydref 2022 mewn perthynas â Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) (“y Bil”).

Gweler fy ymateb isod i'r set o argymhellion yn yr adroddiad na allwn fynd i'r afael â hwy’n llawn yn ystod y Ddadl ar Egwyddorion Cyffredinol Cyfnod 1 ar 11 Hydref 2022.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu heddiw at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith i nodi fy ymateb i'w hargymhellion.

**Argymhelliad 1**
Yn ystod y ddadl Cyfnod 1, dylai’r Gweinidog egluro pam na chafodd Bil ei gyflwyno yn gynnar ym mlwyddyn gyntaf y Chweched Senedd.

**Ymateb**
Mae’r broses o ddatblygu polisi ar gyfer cynlluniau i wahardd a chyfyngu ar gynhyrchion plastig untro wedi bod yn mynd rhagddi ers sawl blwyddyn. Rwy'n ymwybodol fod y Senedd hefyd wedi galw o'r blaen am weithredu deddfwriaethol yn y maes hwn. Fodd bynnag, yn ddi-os, mae ymadael â’r UE a phandemig COVID-19 wedi creu pwysau a heriau sylweddol o ran cyflawni'r polisïau hyn. Achosodd deddfiad Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 (UKIMA) oedi cychwynnol wrth inni ystyried a oedd egwyddorion mynediad i’r farchnad yn UKIMA yn cael unrhyw effaith ar y Bil. Fel y gwyddoch, mae'r Cwnsler Cyffredinol a'r Llywydd ill dau wedi dweud bod darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd ac rydym yn hyderus bod darpariaethau'r Bil yn gwbl orfodadwy ac effeithiol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Nghymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Argymhelliad 2**
Yn ystod y ddadl Cyfnod 1, dylai’r Gweinidog egluro beth fyddai’r goblygiadau wedi bod i amgylchedd Cymru pe bai’r Bil wedi bod yn destun proses graffu arferol Cyfnod 1 y Senedd a chraffu deddfwriaethol llawn.

**Ymateb**
Mae'r cynhyrchion plastig untro sy'n cael eu targedu yn y Bil yn aml yn anodd eu hailgylchu, yn aml yn cael eu taflu fel sbwriel ac yn cael eu darganfod yn aml yn ein moroedd a'n hafonydd sy'n gallu achosi niwed i'n bywyd gwyllt. Mae'r Bil hwn yn gam allweddol i atal llif llygredd plastig a bydd defnyddio'r broses gyflymach yn golygu y gall gyfrannu tuag at ein camau i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur cyn gynted â phosibl.

**Argymhelliad 3**
Yn ystod y ddadl Cyfnod 1, o ystyried ei barn bod angen y ddeddfwriaeth ar frys, dylai’r Gweinidog egluro pam na ofynnodd am ddefnyddio gweithdrefn Bil Brys y Senedd.

**Ymateb**
Ystyriwyd y weithdrefn Bil brys ond nid oedd yn cael ei hystyried yn briodol yn yr achos hwn am ei fod yn osgoi craffu Cyfnod 1 yn llwyr, sy'n angenrheidiol o dan amgylchiadau penodol. Nid felly yr oedd hi ar gyfer y Bil.

Roedd yn bwysig ein bod yn rhoi cyfle i Bwyllgorau ystyried y Bil cyn y camau gwelliannau, hyd yn oed os oedd yn un byrrach. Er mwyn cynorthwyo'r broses graffu cyn deddfu, fe wnaethom gyhoeddi'r Bil drafft cyn ei gyflwyno. Fe wnes i hefyd hysbysu’r Pwyllgorau o nifer fach o welliannau technegol i'r Bil y byddwn yn eu cyflwyno yng Nghyfnod 2. Rwy'n falch o nodi bod eich Pwyllgor wedi gallu craffu ar y Bil a llunio adroddiad cynhwysfawr er gwaethaf y cyfyngiadau o ran amser.

**Argymhelliad 4**
Yn ystod y ddadl Cyfnod 1, o gofio ei barn nad yw Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 yn effeithio ar y Bil, dylai’r Gweinidog egluro pam y cafodd ei defnyddio fel dadl ar gyfer cyflymu craffu ar y Bil.

**Ymateb**
Pan ysgrifennais at y Pwyllgor Busnes ar y mater hwn ym mis Gorffennaf, roedd dau reswm da pam y dylid cyflymu’r Bil. Yn gyntaf, roedd y rheidrwydd o ran diogelu'r amgylchedd, ac yn ail, cais y Llys Apêl am gyd-destun deddfwriaethol i ystyried y dadleuon sy'n cael eu datblygu gan y Cwnsler Cyffredinol yn y cais (a oedd yn parhau bryd hynny) am adolygiad barnwrol o UKIMA.

Mae'r Bil yn rhan o'n hymdrechion i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, ac mae maint y rheini'n golygu bod yn rhaid blaenoriaethu iechyd ein hamgylchedd. Mae angen newid ar frys er mwyn osgoi gadael gwaddol o wastraff i genedlaethau'r dyfodol ddelio ag ef. Roeddem o'r farn bod angen cyflwyno'r Bil ar amserlen gyflymach i sicrhau bod cynnydd sylweddol yn cael ei wneud ac nad ydym yn syrthio y tu ôl i wledydd eraill yn y DU ac ar draws y byd.

Er i'r Goruchaf Lys wrthod ein cais am ganiatâd i apelio yn erbyn penderfyniad y Llys Apêl bod ein cais am adolygiad barnwrol o UKIMA yn gynamserol, gadawodd y drws ar agor i'r dadleuon sylweddol gael eu hystyried mewn achos yn y dyfodol. Nid yw ein safbwynt - bod y Bil o fewn cymhwysedd ac yn gwbl orfodadwy ac effeithiol - yn anghydnaws â'n barn ni bod y Bil yn gallu darparu'r cyd-destun a fyddai'n cynorthwyo'r Llys i brofi'r dadleuon am UKIMA mewn achos yn y dyfodol. Nid yw'r ddau safbwynt hyn yn annibynnol ar ei gilydd. Mae cyflymu’r Bil yn cadw'r holl opsiynau o ran sut y gellir dwyn y mater hwnnw gerbron y Llys.

**Argymhelliad 5**
Yn ystod y ddadl Cyfnod 1, dylai'r Gweinidog ddatgan yn glir pryd y mae'n bwriadu cychwyn holl ddarpariaethau'r Bil fel ei fod yn gwbl weithredol.

**Ymateb**
Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Rydym yn bwriadu i'r holl ddyddiadau cychwyn fod o fewn tymor y Senedd hon h.y. erbyn mis Ebrill 2026. Er mwyn helpu i gefnogi gweithgynhyrchwyr, manwerthwyr a dosbarthwyr cynhyrchion plastig untro, byddwn yn cyflwyno dyddiadau cychwyn hwyrach ar gyfer bagiau siopa plastig untro, caeadau wedi'u gwneud o blastig polystyren ac ocso-ddiraddadwy. Y bwriad yw helpu busnesau i addasu i'r newid deddfwriaethol ac i ddod o hyd i ddewisiadau amgen.

Mae'r Bil yn ymgysylltu â chytundeb Sefydliad Masnach y Byd (WTO) ar Rwystrau Technegol i Gytundeb Masnach. Mae'r WTO yn gwneud cyfnod segur o chwe mis yn ofynnol ar ôl pasio'r Bil ac iddo gael ei gyflwyno ar gyfer Cydsyniad Brenhinol. Mae angen yr oedi hwn i ganiatáu i weithredwyr tramor addasu eu cynnyrch i'r gofynion newydd. Mae'n arferol hefyd i gychwyn darpariaethau Bil wyth wythnos ar ôl y Cydsyniad Brenhinol. O ganlyniad, y cynharaf y gellir cychwyn unrhyw ddarpariaethau yw tymor yr hydref 2023.

**Argymhelliad 6**
Yn ystod y ddadl Cyfnod 1, dylai'r Gweinidog gadarnhau sut y bydd cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar rwystrau technegol i fasnachu yn effeithio ar gychwyn a gweithredu darpariaethau'r Bil.

**Ymateb**
Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Erthygl 2.12 o gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Rwystrau Technegol i Fasnachu yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau ganiatáu ysbaid rhesymol rhwng cyhoeddi mesurau ac iddynt ddod i rym. Mae hyn er mwyn rhoi amser i gynhyrchwyr Aelodau sy'n allforio, ac yn enwedig Aelodau sy'n wledydd sy'n datblygu, i addasu eu cynnyrch neu ddulliau cynhyrchu i ofynion yr Aelod sy'n mewnforio. Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn, y bwriad, yn dilyn cymeradwyaeth y Senedd i'r Bil, yw y bydd cyfnod segur o chwe mis cyn i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol a chychwyn darpariaethau'r Bil wedi hynny.

**Argymhelliad 7**
Yn ystod y ddadl Cyfnod 1, dylai'r Gweinidog gadarnhau a yw'r astudiaeth achos ar blastig ocso-ddiraddadwy yn gywir ac os nad ydyw, pam.

**Ymateb**
Rwy'n cyfeirio at fy ymateb a ddarparwyd yn ystod dadl Cyfnod 1 ac at Argymhelliad 8 isod am ragor o fanylion ar y pwynt hwn.

**Argymhelliad 8**
Dim hwyrach na 10 diwrnod gwaith ar ôl y ddadl Cyfnod 1, dylai'r Gweinidog ysgrifennu atom ni a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, gan ddarparu ei hasesiad manwl o'n hastudiaeth achos ar blastig ocso-ddiraddadwy gan gynnwys unrhyw oblygiadau o ran gorfodi'r gyfraith sy'n deillio o'r Bil.

**Ymateb**
Nid wyf yn cytuno bod astudiaeth achos y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn cynrychioli'r sefyllfa'n gywir. Mae'r astudiaeth achos yn delio â chyflenwad o fusnes i fusnes tra bod y Bil yn gwahardd cyflenwi cynhyrchion plastig untro sydd wedi eu gwahardd i *ddefnyddiwr* yng Nghymru. Diffinnir "defnyddiwr" gan adran 5(9) o'r Bil fel

“unigolyn sy'n gweithredu at ddibenion sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf y tu allan i grefft, busnes neu broffesiwn yr unigolyn hwnnw”.

Ar y cwestiwn ehangach o orfodadwyedd, ein safbwynt yw bod darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd ac maent yn gwbl effeithiol a gorfodadwy, gan gynnwys elfennau trawsffiniol y darpariaethau sy'n ei gwneud yn drosedd i gyflenwi cynnyrch plastig ocso-ddiraddadwy gwaharddedig i ddefnyddwyr yng Nghymru.

**Argymhelliad 9**
Yn ystod y ddadl Cyfnod 1, dylai’r Gweinidog egluro sut y bydd awdurdodau lleol yn gallu cymryd camau gorfodi mewn perthynas â’r holl eitemau gwaharddedig yn y Bil, hyd yn oed os ydynt yn cael eu cyflenwi o rannau eraill o’r DU, gan gynnwys, yn benodol, bagiau siopa untro a phlastigau ocso-ddiraddadwy.

**Ymateb**
Rwy'n cyfeirio at fy ateb a roddwyd yn ystod dadl Cyfnod 1 ac at fy ymateb i Argymhelliad 10 isod.

**Argymhelliad 10**
Dim hwyrach na 10 diwrnod gwaith ar ôl y ddadl Cyfnod 1, dylai’r Gweinidog ysgrifennu atom ni a’r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn darparu gwybodaeth fanwl sy’n egluro sut y bydd awdurdodau lleol yn gallu cymryd camau gorfodi mewn perthynas â’r holl eitemau gwaharddedig yn y Bil, hyd yn oed os ydynt yn cael eu cyflenwi o rannau eraill o’r DU, gan gynnwys, yn arbennig, bagiau siopa untro a phlastigau ocso-ddiraddadwy.

**Ymateb**
Rwyf o'r farn, ac mae'r Llywydd yn cytuno, bod yr holl ddarpariaethau yn y Bil hwn o fewn cymhwysedd y Senedd. Mae'r penderfyniad hwnnw'n cynnwys y darpariaethau sy'n gwahardd cyflenwi i ddefnyddwyr yng Nghymru, o rannau eraill o'r DU, bagiau siopa untro a phlastigau ocso-ddiraddadwy. Yn unol â hynny, rydym o'r farn bod y darpariaethau'n gwbl effeithiol ac yn orfodadwy. Rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol, gyda budd y canllawiau ymarferol y byddwn yn eu darparu, eu gorfodi, fel y byddent gydag unrhyw ddeddfwriaeth arall gan y Senedd.

Mae awdurdodau lleol eisoes yn archwilio safleoedd sy'n berthnasol i ddarpariaethau'r Bil o dan ddyletswyddau statudol presennol. Mae fy swyddogion yn datblygu canllawiau cynhwysfawr i helpu busnesau, defnyddwyr ac awdurdodau lleol i ddeall y newidiadau a ddaw yn sgil y ddeddfwriaeth hon. Yn y lle cyntaf, canolbwyntir ar addysg a gwaith ymgysylltu â manwerthwyr a chynrychiolwyr busnes, cyn cymryd camau gorfodi.

**Argymhelliad 11**
Yn ystod y ddadl Cyfnod 1, dylai’r Gweinidog, os nad yw UKIMA yn effeithio ar y Bil a bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, (ac yn dilyn sylwadau’r Cwnsler Cyffredinol yng nghyfarfod llawn ar 5 Hydref) esbonio ar ba sail y gallai Llywodraeth Cymru wneud her gyfreithiol mewn perthynas ag UKIMA a thrwy ba lwybr cyfreithiol.

**Ymateb**
Ein safbwynt ni yw bod y Bil o fewn cymhwysedd y Senedd, ei fod yn gwbl orfodadwy, ac nad yw'n cael ei effeithio gan UKIMA. Rydym o’r farn honno oherwydd bod y Bil hwn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig. Ni all UKIMA ac nid yw, yn ein barn ni, yn torri ar draws cymhwysedd y Senedd i ddeddfu am y materion hynny. Ni all olygu diddymu Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (GoWA), sy'n statud gyfansoddiadol. Ni all gadw materion yn ôl drwy’r drws cefn.

Mae'r holl opsiynau ar gyfer herio UKIMA yn parhau'n agored i'r Cwnsler Cyffredinol. Mae gan y Cwnsler Cyffredinol bŵer o dan adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i gyfeirio'r Bil hwn at y Goruchaf Lys. Nid yw wedi gwneud penderfyniad ar hynny eto ac ni all wneud hynny nes i'r Bil gael ei basio gan y Senedd, ac mae ei gynnwys terfynol yn wybyddus. Fel y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi dweud, bydd yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol wrth wneud ei benderfyniad bryd hynny.

Mae gan Dwrnai Cyffredinol Llywodraeth y DU hefyd bŵer i gyfeirio'r Bil at y Goruchaf Lys a byddwn, wrth gwrs, yn ymateb yn unol â hynny os bydd yn gwneud hynny.

**Argymhelliad 12**
Dylai'r Gweinidog ailedrych ar y diffiniadau yn adran 1 o'r Bil, gyda'r bwriad o gyflwyno gwelliannau sy'n cynnwys diffiniadau mwy cyflawn, sy'n lleihau'r cyfleoedd i achub mantais ar fylchau ac yn rhoi mwy o sicrwydd i'r rhai sy'n gorfodi'r Bil.

**Ymateb**
Rwy'n gwrthsefyll yr argymhelliad hwn. Mae drafftio deddfwriaethol yn aml yn golygu cydbwyso i hwyluso dealltwriaeth a rhoi sicrwydd llwyr. Yng ngwrandawiad tystiolaeth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, eglurais, er bod drafftio termau allweddol yn Adran 1 y Bil yn wahanol i ddrafftio'r termau hynny o dan Gyfarwyddeb Plastig Untro yr Undeb Ewropeaidd, rydym o'r farn bod y diffiniadau hyn yr un fath i'r graddau y bo eu heffaith ymarferol dan sylw.

Nid yw'r drafftio yn union yr un fath gan ein bod wedi ceisio egluro'r testun neu ddileu geiriad yr oeddem yn ystyried ei fod yn ddiangen, yn unol â'n harfer drafftio. Ein safbwynt ni, felly, yw bod drafftio'r termau allweddol yn glir. Er mwyn sicrhau eglurder pellach, byddwn yn cyhoeddi canllawiau cynhwysfawr i helpu busnesau, defnyddwyr ac awdurdodau lleol i ddeall y gwahanol ddiffiniadau cyfreithiol yn y Bil. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu ar y cyd a'i wneud cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid wrth ddatblygu gwaith cyfathrebu sy'n ymwneud â'r Bil. Bydd hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth i helpu i egluro'r cynhyrchion sy'n cael eu cynnwys.

**Argymhelliad 13**
Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil er mwyn darparu bod dyletswydd yn y Bil i ddarparu canllawiau; bod y ddyletswydd yn cynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid ac y dylai'r canllawiau fod yn destun craffu gan y Senedd.

**Ymateb**
Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Byddaf yn cyflwyno gwelliant i'r Bil yng Nghyfnod 2 i roi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ynghylch y cynhyrchion plastig untro sydd wedi'u gwahardd o dan y Bil a'r esemptiadau a restrir yng ngholofn 2 o'r Tabl yn yr Atodlen.

**Argymhelliad 14**
Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddarparu dyletswydd i ymgynghori â rhanddeiliaid gan gynnwys gweithgynhyrchwyr a chynhyrchwyr cyn gwneud rheoliadau o dan adran 3.

**Ymateb**
Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Bydd gwelliant yn cael ei gyflwyno i ddarparu dyletswydd i ymgynghori â rhanddeiliaid gan gynnwys gweithgynhyrchwyr a chynhyrchwyr cyn gwneud rheoliadau o dan adran 3.

**Argymhelliad 15**
Yn ystod y ddadl Cyfnod 1, dylai'r Gweinidog egluro'r rhesymau dros ddarparu bod person y tu allan i Gymru yn cyflawni trosedd os yw'n cyflenwi cynnyrch plastig untro gwaharddedig i ddefnyddiwr sydd yng Nghymru.

**Ymateb**
Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae'r Bil yn ceisio mynd i'r afael â'r effeithiau negyddol gan lygredd plastig ar ein hamgylchedd, ein bywyd gwyllt, ein hiechyd a'n llesiant. Bydd person o'r tu allan i Gymru sy'n cyflenwi cynnyrch sydd wedi'u rhestru yn y Bil i ddefnyddwyr yng Nghymru yn atebol am drosedd. Credwn y bydd hyn yn rhwystr i'r rhai sy'n dymuno tanseilio ein deddfwriaeth a bydd yn helpu i atal cyflenwi o'r tu allan y nwyddau gwaharddedig hyn yng Nghymru.

Rydym yn cydnabod bod materion ymarferol wrth orfodi'r drosedd o ran gwerthu o bell (yn enwedig pan fo'r eitem yn cael ei chyflenwi o'r tu allan i awdurdodaeth gyfreithiol Cymru a Lloegr). Fodd bynnag, ein bwriad yw gweithio gyda busnesau i sicrhau ein bod yn cyfyngu ar gyflenwi'r cynhyrchion hyn i Gymru cyn belled ag y bo modd.

**Argymhelliad 16**
Yn ystod y ddadl Cyfnod 1, dylai'r Gweinidog egluro sut y bydd adran 5 o'r Bil yn cael ei orfodi o ran bagiau siopa untro a phlastigau ocso-ddiraddadwy.

**Ymateb**
Rydym yn o'r farn, ac mae'r Llywydd yn cytuno, bod yr holl ddarpariaethau yn y Bil hwn o fewn cymhwysedd y Senedd. Mae'r penderfyniad hwnnw'n cynnwys y darpariaethau sy'n gwahardd y cyflenwad i ddefnyddwyr yng Nghymru, o rannau eraill o'r DU, o fagiau siopa untro a phlastigau ocso-ddiraddadwy. Yn unol â hynny, rydym o'r farn bod y darpariaethau'n gwbl effeithiol ac yn orfodadwy. Rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol, gyda budd y canllawiau ymarferol y byddwn yn eu darparu, eu gorfodi, fel y byddent gydag unrhyw ddeddfwriaeth arall gan y Senedd. Bydd gwaith ymgysylltu ac ymgynghori pellach gydag awdurdodau lleol wrth i ni gyd-gynhyrchu'r canllawiau ar gyfer bagiau siopa untro a phlastigion ocso-ddiraddadwy.

**Argymhelliad 17**
Dylai'r Gweinidog sicrhau bod ymatebion manwl mewn perthynas â sylwedd pob argymhelliad wedi'u cynnwys yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, a dylid eu darparu cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl y ddadl Cyfnod 1.

**Ymateb**
Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Derbyniwch y llythyr hwn fel cyflawni'r argymhelliad hwn.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change